

## **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005**

### **Drysau Tân mewn Blociau o Fflatiau ac Adeiladau Tebyg**

#### **Canllawiau i Bersonau Cyfrifol**

#### **Cyflwyniad**

1. Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 - neu "y Gorchymyn" - yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gyfraith sy'n ymwneud â diogelwch tân mewn adeiladau yng Nghymru (a Lloegr). Nid yw'n gymwys i adeiladau preifat, ond mae yn gymwys i'r ardaloedd cyffredin mewn blociau o fflatiau o unrhyw faint neu uchder (gan gynnwys tai sydd wedi'u troi'n fflatiau neu safleoedd tebyg eraill lle mae sawl annedd, er enghraifft llety i fyfyrwyr). Ystyr "ardaloedd cyffredin" yw unrhyw ran o'r adeilad y mae pob un o'r meddiannwyr yn gallu eu defnyddio, megis cynteddau, grisiau a landins. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ardaloedd o'r fath hefyd yn cynnwys y drysau sy'n arwain i'r anheddau unigol. Mae drysau o'r fath yn hanfodol bwysig i ddiogelwch tân y meddiannwyr ac i atal tân rhag lledaenu drwy'r adeilad.
2. Mae'r Gorchymyn yn gosod dyletswydd sy'n ymwneud â diogelwch tân ar y "person cyfrifol" ar gyfer pob safle. Ar gyfer blociau o fflatiau, fel arfer y landlord neu'r asiant rheoli yw'r person cyfrifol. Nid preswylwyr yr anheddau unigol yw'r "personau cyfrifol", ac, fel rheol, nid yw prif ddyletswyddau'r Gorchymyn yn gymwys iddynt.
3. Mesurau synnwyr cyffredin yw'r dyletswyddau y mae'r Gorchymyn yn eu gosod er mwyn cadw'r safle a'i feddiannwyr yn ddiogel rhag tân. Fel arfer mae personau cyfrifol yn fodlon cydymffurfio'n llwyr â'u dyletswyddau: mae o fantais fasnachol iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, mae unrhyw achos o dorri'r Gorchymyn yn fater difrifol. Mae gan y Gwasanaethau Tân ac Achub bwerau i arolygu a gorfodi cydymffurfedd, a phan ddaw achosion o dorri'r Gorchymyn i'r amlwg, mae'n gallu gweithredu ac mae yn gweithredu. I ddechrau, byddai hynny'n golygu cynghori'r person cyfrifol i gymryd camau unioni. Ond gall achosion mwy difrifol o dorri Gorchymyn, neu fethu ag ymateb i gyngor, arwain at gamau mwy ffurfiol, hyd at a chan gynnwys erlyn y person cyfrifol.
4. Mae'r Gorchymyn hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau er mwyn helpu personau cyfrifol o ran sut i gyflawni'u dyletswyddau. Ystyrir y ddogfen hon yn ganllaw o'r fath ar ddrysau tân mewn blociau o fflatiau a godwyd at y diben neu'n adeiladau sydd wedi'u troi'n flociau o fflatiau a safleoedd tebyg. Nid oes ganddi rym cyfreithiol ac nid oes rheidrwydd ar y personau cyfrifol i gydymffurfio â hi. Fodd bynnag, gallai methu â gwneud hynny gael ei ystyried gan y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth iddynt benderfynu a ddylid ymyrryd ai peidio, a chan y Llysoedd mewn unrhyw erlyniad ar ôl hynny.

#### **Drysau Tân**

5. Mae diogelwch tân mewn blociau o fflatiau yn dibynnu ar sicrhau bod yr adeilad cyfan yn parhau i fod yn adeilad sydd wedi'i rannu'n adrannau, sy'n golygu ei fod yn gallu cadw tân a'r mwg cysylltiedig yn y fflat neu'r ystafell lle ddechreuodd y tân hyd nes y caiff y tân ei ddiffodd. Mae adrannu effeithiol yn atal tân rhag lledaenu i fflatiau eraill a'r nod yw gwarchod y llwybrau dianc arferol drwy'r ardaloedd cyffredin, gan alluogi preswylwyr i adael yr adeilad yn ddiogel.

6. Dylai strwythur yr adeilad ei hun fod wedi'i adrannu er mwyn gwrthsefyll tân yn gadarn: dylai drysau, nenfydau a waliau atal tân a mwg rhag lledaenu'n effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn bod hynny'n gweithio, mae'n hanfodol bod y drysau mynediad i'r fflatiau unigol yn gallu gwrthsefyll tân a mwg a'u hatal rhag lledaenu. Er mwyn diwallu'r angen hwnnw, mae drysau tân a setiau drysau cysylltiedig wedi'u dylunio a'u profi i wrthsefyll tân a mwg a'u hatal rhag lledaenu am gyfnod penodedig o 30 munud o leiaf.
7. Nid yw'r Gorchymyn yn gosod unrhyw ofynion penodol o ran drysau tân. Fodd bynnag, maent yn hanfodol i ddiogelwch tân cyffredinol mewn blociau o fflatiau. Felly, mae'n debygol iawn y bydd angen drysau tân ardystiedig er mwyn cydymffurfio â sawl un o'r dyletswyddau ehangach yn y Gorchymyn sydd ar bersonau cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y ddyletswydd i gymryd rhagofalon tân cyffredinol yn erthygl 8 o'r Gorchymyn, y ddyletswydd i sicrhau dulliau dianc diogel yn erthygl 14, a'r ddyletswydd i gynnal a chadw'r safle yn briodol yn erthygl 17.
8. Mae angen drysau mynediad blaen addas sy'n gallu gwrthsefyll tân, pa un a yw'r landlordiaid neu'r preswylwyr yn berchen arnynt neu'n gyfrifol amdanynt. Mae drysau o'r fath yn rhan bwysig iawn o'r trefniadau diogelwch tân yn y safle hwn. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw amheuaeth eu bod yn rhan o'r ardaloedd cyffredin ac felly wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn. Felly, gall peidio â gosod drysau tân addas fod yn gyfystyr â thorri'r Gorchymyn, gan arwain at gamau gorfodi yn erbyn y person cyfrifol.

### **Canllawiau i Bersonau Cyfrifol**

9. Dylai personau sy'n gyfrifol am flociau o fflatiau a safleoedd eraill sy'n cynnwys sawl annedd geisio mynd ati i sicrhau bod **yr holl ddrysau mynediad rhwng fflatiau unigol ac ardaloedd cyffredin yr adeilad wedi cael eu profi'n briodol i wrthsefyll tân a mwg am o leiaf 30 munud (Gweler y canllaw yn yr Atodiad). Dylai gwaith o'r fath gael ei gynllunio a'i gwblhau yn unol â'r asesiad risgiau tân cyffredinol ar gyfer y safle, er y dylai blaenoriaeth uchel gael ei rhoi i waith o'r fath fel arfer.** Mae peidio â gwneud hynny yn debygol o arwain at y posibilrwydd o dorri'r Gorchymyn mewn ffordd ddifrifol. Er bod gofynion rheoliadol y rheoliadau adeiladu yn wahanol i'r rhai yn y Gorchymyn, bydd drysau tân sy'n cydymffurfio â'r gofynion adeiladu bron bob amser yn bodloni dibenion y Gorchymyn. Mae'r gofynion technegol ar gyfer drysau tân sydd wedi'u cynnwys mewn Rheoliadau Adeiladu yn yr Atodiad i'r canllawiau hyn.
10. Mae'n bosibl bod y drysau tân a osodwyd pan godwyd yr adeilad yn cydymffurfio, er rydym yn cynghori personau cyfrifol i wirio hynny fel rhan o'r asesiad risgiau tân, yn enwedig mewn safleoedd hŷn. Mae problemau'n fwy tebygol o godi pan fydd y drysau tân newydd yn cael eu gosod, ac yn benodol pan fydd preswylwyr yn gwneud hynny ar eu liwt eu hunain. Mae'n bosibl nad ydynt yn gwbl ymwybodol o'r gofynion diogelwch tân, gan ddewis drws sy'n gwbl anaddas am resymau esthetig.
11. Ar y cyfan, nid yw'r dyletswyddau yn y Gorchymyn yn gymwys i breswylwyr fflatiau unigol – er mae'r gyfraith mewn perthynas â hwy yn gymhleth, ac mae sut y mae'n gymwys mewn achosion penodol y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn. Ni ddylai personau cyfrifol ddibynnu ar gamau gorfodi yn erbyn preswylwyr unigol am newid y drysau blaen i ddrysau nad ydynt yn atal tân a mwg rhag lledaenu.

**Felly dylai unigolion cyfrifol gysylltu â phreswylwyr er mwyn:**

- a. **Eu hannog i beidio â mynd ati eu hunain i osod drysau mynediad o'r newydd sy'n ddrysau tân, a/neu**
  - b. **Sicrhau pan fydd drysau mynediad sy'n ddrysau tân yn cael eu gosod o'r newydd, bod y drws newydd yn bodloni'r gofynion ym mharagraff 9 uchod.**
12. Y ffordd orau o sicrhau hynny fyddai cynnwys darpariaethau mewn cytundebau tenantiaeth neu lesio sydd naill ai'n gwahardd gosod drysau tân o'r newydd neu ei gwneud yn orfodol iddynt osod setiau drysau ardystiedig. Os nad yw hynny'n bosibl, dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod preswylwyr yn gwybod pa risgiau a chanlyniadau sydd ynghlwm wrth osod drysau o'r newydd ar eu liwt eu hunain, a dylid eu hannog yn gryf i beidio â gwneud hynny. Os felly, bydd hi'n llai tebygol bod y person cyfrifol yn cael ei ddal i gyfrif am unrhyw gamau sy'n torri'r Gorchymyn wedi hynny.
13. Yn ddiweddar cafwyd problemau wrth i nifer fach o ddrysau tân ardystiedig beidio â chydymffurfio wrth iddynt gael eu hailbrofi<sup>1</sup>. Mae'r drysau hynny ar y cyfan wedi cael eu tynnu oddi ar y farchnad; lle bo'n bosibl mae'r gweithgynhyrchwyr wedi cysylltu â'r sawl a'u prynodd. Fodd bynnag, gallwn fod yn weddol sicr na fydd y drysau hynny yn briodol at ddibenion y Gorchymyn, felly **dylai personau cyfrifol wirio a ydynt wedi gosod unrhyw un neu ragor o'r drysau hyn. Dylent osod drysau newydd yn eu lle fel rhan o'r rhaglen o waith a nodwyd ym mharagraff 9 uchod.**
14. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i adolygu'r Gorchymyn fel rhan o'r gwaith diwygio ehangach o gyfraith diogelwch adeiladau yn dilyn tân Tŵr Grenfell. Bydd y gwaith diwygio hwnnw'n cynnwys egluro cyfrifoldebau landlordiaid a phreswylwyr o ran drysau tân a nodweddion diogelwch eraill
15. I gael cyngor o ran sut y gall y Gorchymyn fod yn gymwys mewn achosion penodol, mae croeso ichi gysylltu â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol:

Canolbarth a Gorllewin Cymru: 0370 6060699 neu

<http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/Diogelwch-Tan-Busnesau/Pages/Cyfraith-Diogelwch-Tan-a-Chanllawiau-ar-gyfer-Busnes.aspx>

Gogledd Cymru: 01745 535250 neu

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/keeping-you-safe/at-your-business/?lang=cy-gb>

De Cymru: 01443 232000 neu

<https://www.southwales-fire.gov.uk/your-safety-wellbeing/in-business/>

16. Ni all Llywodraeth Cymru roi cyngor penodol i chi am ddiogelwch tân mewn achosion penodol. Fodd bynnag, anfonwch unrhyw ymholiadau am y canllawiau hyn at: [fire@gov.wales](mailto:fire@gov.wales) neu drwy'r post i:  
Cangen y Gwasanaethau Tân  
Llywodraeth Cymru  
Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

---

<sup>1</sup> [Advice for building owners on assurance and replacing of flat entrance fire doors](#) - canllawiau a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol - diweddarwyd 31 Gorffennaf 2018.

## **Atodiad – Y ddarpariaeth ar gyfer Drysau Tân**

Dylai tystiolaeth fodoli ar gyfer setiau drysau newydd sy'n dangos eu bod wedi cael eu profi mewn lleoliad profi wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS), neu leoliad cyfwerth, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y canllawiau ar y Rheoliadau Adeiladu.

(<https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-b-fire/?skip=1&lang=cy>).

Dylai'r dystiolaeth brawf gael ei gwirio'n ofalus i sicrhau bod y manylion sydd ynnddi yn cyfateb yn union â manylion y setiau drysau sy'n cael eu gosod. Gall mân wahaniaethau (megis agoriadau gwydr, stribedi sy'n chwyddo, fframiau drysau a gwaith haearn etc) gael effaith niweidiol ar berfformiad y setiau drysau o ran diogelwch ac o ran gwrthsefyll tân a mwg.

Dylai'r ddyfais hunan gau allu cau'r drws yn dynn yn ei ffrâm ni waeth sut y mae'n agor, heb adael i glicied y drws a'r seliau ymyl ei rwystro.

Mae ardystiad trydydd parti gan gorff sydd wedi'i achredu gan UKAS o ran gweithgynhyrchu, gosod, cynnal a chadw ac arolygu ar gyfer tân, mwg a diogelwch yn rhoi mwy o sicrwydd i landlordiaid a pherchenogion adeiladau o ran perfformiad y drysau. Bydd setiau drysau sy'n cael eu hardystio a'u cyflenwi ac sy'n cyfateb yn union o ran tân, mwg a diogelwch yn rhoi rhagor o sicrwydd o ran perfformiad, yn yr un modd â thystysgrif yn enw'r cwmni sy'n cynhyrchu'r set gydag enw'r set wedi'i restru ar y dystysgrif.